

ABBE Tystysgrif ar gyfer Aseswyr Æ"l-ffitio Lefel 3



Yn gwyno

Bwriad y cymhwyster hwn yw cwmpasu pob agwedd o'r rôl Aseswr Ôl-osod PAS2035 gan roi'r wybodaeth y dealltwriaeth a'r sgiliau i'r dysgwr allu ymgymryd ag asesiad a chynhyrchu adroddiad cyflwr. Mae'n cynnwys dealltwriaeth o egwyddorion a safonau Ôl-osod, dealltwriaeth o'r strwythurau adeiladu, gwerthuso adeiladau ac asesiadau deiliadaeth sydd i gyd yn hanfodol yn y rôl hon.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).

Gofynion Mynediad

Mae yna rai gofynion mynediad ar gyfer y cwrs hwn:

Asesiad Ynni Domestig (DEA): Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r cymhwyster DEA sydd hefyd ar gael gan PLA Coleg Gwent. Gofynnwch i'ch cynghorydd Coleg Gwent am ragor o fanylion.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cefndir addysgol: Fel arfer, nid oes unrhyw ragofynion addysgol penodol ar gyfer y cwrs hwn. Fodd bynnag, bydd cefndir addysgol sylfaenol mewn maes cysylltiedig megis peirianeg, pensaernïaeth, gwyddor adeiladu, gwyddor yr amgylchedd, ôl-osod, neu ddisgyblaeth gysylltiedig o fudd.

Profiad: Gall profiad blaenorol ym meysydd effeithlonrwydd ynni ac asesiadau adeiladu, neu feysydd cysylltiedig, fod yn fanteisiol ond nid yw bob amser yn ofynnol. Gall y cwrs fod yn addas ar gyfer unigolion sy'n dymuno ymuno â'r diwydiant effeithlonrwydd ynni ac ôl-osod neu drosglwyddo iddo.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bwriad rhaglen PLA yw darparu cyngor ac arweiniad o safon ar yr yrfa i gyfranogwyr cyn, yn ystod ac wedi eu dysgu.

Cyn i chi gael eich ymrestru ar eich cwrs sydd wedi'i ariannu gan PLA, bydd cynllun dysgu unigol yn cael ei drafod gyda chi er mwyn sicrhau bod y dysgu cywir wedi cael ei ystyried.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gyffredinol ar y pynciau canlynol:

addysg ffurfiol neu gymwysterau mewn meysydd perthnasol
profiad blaenorol o fewn y diwydiant neu faes
dyheadau gyrfa yn y dyfodol
ymrwymo i'r amser sydd ei angen

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

